



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

DYDDIAD 22 Gorffennaf 2021

GAN Rebecca Evans AS, Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Trosolwg Polisi o'r OS:

Mae angen diwygio'r ddeddfwriaeth gaffael (a nodir isod) er mwyn gallu rhoi'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA) ar waith yn y wlad hon o dan Reoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

Y Cyfreithiau sy'n cael eu diwygio:

Pwrpas y diwygiadau

Pwrpas y diwygiadau yw gwneud newidiadau technegol i'r ddeddfwriaeth gaffael bresennol i sicrhau bod ymrwymadau caffael rhyngwladol yn cael eu rhoi ar waith yn llawn ledled y DU. Mae hynny'n golygu rhoi grym i'r rhestr o endidau llywodraeth ganol yn Atodiad 1 i Atodlen I y Deyrnas Unedig i'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n esbonio effaith pob diwygiad, ar gael [yma](#).

Effeithiau'r OS ar gymwyseddau gweithredol Gweinidogion Cymru

Ni chaiff yr OS unrhyw effaith ar gymwyseddau gweithredol Gweinidogion Cymru.

Effeithiau'r OS ar gymwyseddau gweithredol y Senedd

Ni chaiff yr OS unrhyw effaith ar gymwyseddau gweithredol y Senedd.

Pam y cafodd caniatâd ei roi

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran polisi dros y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn golygu dyblygu gwaith a chymhlethdod diangen.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ei rhan yn yr achos hwn.